

'Dim ond ein gorau glas sy'n ddigon da.'

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel Ysgol sy'n Parchu Hawliau rydym yn addysgu am hawliau plant a hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.

The United Nations Convention on the Rights of the Child (CRC) is at the heart of our school's planning, policies, practice and ethos. As a rights-respecting school we not only teach about children's rights but also model rights and respect in all relationships.



Polisi Codi Tâl

Dyddiad adolygu a mabwysiadu:

Date reviewed and adopted: **06.10.2026**

Dyddiad yr adolygiad nesaf: **Hydref 2027**

Date of next review: **Autumn 2027**

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Signature of chair of governors:



drosiannol.

Mae'r Polisi Codi Tâl a Chonsesiynau hwn wedi'i lunio yn unol ag Adran 457 Deddf Addysg 1996, sy'n nodi'r amgylchiadau lle y caniateir i ysgolion godi tâl am weithgareddau sy'n gysylltiedig ag addysg. Mae'r polisi hefyd yn adlewyrchu egwyddorion a disgwyliadau canllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru ynghylch codi tâl, consesiynau a lleihau cost y diwrnod ysgol.
Mae Corff Llywodraethol Ysgol Gymraeg Bryniago wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd addysgol, beth bynnag fo amgylchiadau ariannol eu teuluoedd, a bod unrhyw daliadau a godir gan yr ysgol yn rhesymol, yn dryloyw ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol.

1. Rhagymadrodd

1. Egwyddorion

Yn Ysgol Gymraeg Bryniago, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteisio ar yr holl gyfleoedd addysgol a gynigir gan yr ysgol, waeth beth fo amgylchiadau ariannol eu teuluoedd.
Rydym yn cydnabod y gall cost y diwrnod ysgol roi pwysau ar deuluoedd ac rydym wedi ymrwymo i leihau rhwystrau ariannol lle bynnag y bo modd. Nod y Corff Llywodraethol yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chyfoethog gan sicrhau bod cyfranogiad ym mywyd yr ysgol yn fforddiadwy ac yn hygyrch i bawb.
Ni chodir tâl am addysg a ddarperir yn ystod oriau ysgol arferol, gan gynnwys gweithgareddau sy'n ffurfio rhan o Gwricwlwm i Gymru. Dim ond am weithgareddau a ganiateir gan y ddeddfwriaeth berthnasol y gellir codi tâl, gan gynnwys gwersi offerynnol unigol neu mewn grwpiau bach, llety a bwyd ar ymweliadau preswyl, a rhai gweithgareddau dewisol ychwanegol.
Bydd yr ysgol bob amser yn ceisio:

- Cadw taliadau mor isel â phosibl.
- Cynnig cymorth ariannol lle bo modd.
- Ystyried fforddiadwyedd cyn trefnu gweithgareddau.
- Sicrhau na chaiff unrhyw ddysgwr ei eithrio o gyfle addysgol oherwydd anhawster ariannol.
- Gweithio mewn partneriaeth â rhieni, gofalwyr, y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a'r gymuned ehangach i leihau cost y diwrnod ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi penodi llywodraethwr dynodedig i oruchwylio ymrwymiad yr ysgol i fforddiadwyedd a phrawfesur tlodi.
Hyrwyddwr Ceri: Mrs Sian Breeden

Swyddogaeth Hyrwyddwr Ceri yw sicrhau bod adnoddau'r ysgol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i leihau costau i deuluoedd ac i ganfod ffyrdd o ddarparu cymorth ariannol lle bo angen.

2. Cyfraniadau gwirfoddol

Mae ymweliadau addysgol, gweithdai, ymwelwyr a gweithgareddau cyfoethogi yn gwneud cyfraniad pwysig i ddysgu a datblygiad y disgyblion.
Lle bo'n briodol, gall yr ysgol wahodd rhieni a gofalwyr i wneud cyfraniad gwirfoddol tuag at gost y gweithgareddau hyn. Mae pob cyfraniad yn gwbl wirfoddol.
Ni chaiff unrhyw blentyn ei wahardd rhag cymryd rhan am nad yw cyfraniad wedi'i wneud. Fodd bynnag, os na dderbynnir digon o gyfraniadau, efallai y bydd angen gohirio, addasu neu ganslo'r gweithgaredd.
Anogir rhieni a gofalwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol i gysylltu'n gyfrinachol â'r Pennaeth. Gall trefniadau amgen neu gymorth ariannol fod ar gael.
Gall cyfraniadau gwirfoddol gael eu gofyn ar gyfer:

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

- Ymweliadau addysgol ac ymweliadau i amgueddfeydd
- Gweithgareddau awyr agored ac anturiaethol
- Cwmnïau theatr ac ymweliadau gweithdy
- Digwyddiadau chwaraeon sydd angen trafnidiaeth
- Perfformiadau cerddorol a gweithgareddau cyfoethogi

Mae gan rieni a gofalwyr yr hawl i ofyn am wybodaeth ynghylch sut y caiff gweithgareddau eu hariannu.

3. Ymweliadau preswyl

Mae ymweliadau preswyl yn rhan bwysig o gwricwlwm Ysgol Gymraeg Bryniago ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu annibyniaeth, gwydnwch, gwaith tîm a hyder.
Pan fo ymweliad preswyl yn digwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol ac yn ffurfio rhan o Gwricwlwm i Gymru, ni chodir tâl am yr addysg na'r costau teithio. Fodd bynnag, gall yr ysgol ofyn am gyfraniad tuag at gost llety a bwyd.
Os na dderbynnir digon o gyfraniadau, efallai y bydd angen gohirio'r daith neu ddarparu'r elfen honno o'r cwricwlwm mewn ffordd arall.

Trefniadau Talu mewn Rhandaliadau

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall cost ymweliadau preswyl fod yn sylweddol i rai teuluoedd. O ganlyniad, bydd cynlluniau talu hyblyg ar gael lle bo modd.
Gall cyfnodau talu estynedig gael eu cynnig i deuluoedd sy'n wynebu anawsterau ariannol ac i'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.
Fel arfer, rhaid derbyn y taliad llawn cyn dyddiad yr ymweliad oni bai bod trefniadau amgen wedi'u cytuno gyda'r Pennaeth.

Ad-daliadau

Os na all disgybl fynychu ymweliad preswyl oherwydd salwch, ystyrir ad-daliad yn amodol ar allu'r ysgol i adennill costau gan ddarparwyr neu gwmnïau yswiriant.
Gall fod angen tystiolaeth feddygol.
Gall y Pennaeth awdurdodi ad-daliad mewn amgylchiadau eithriadol ac annisgwyl.
Fel arfer, ni roddir ad-daliad os bydd disgybl yn gorfod gadael ymweliad preswyl yn gynnar oherwydd materion ymddygiad.

4 . Dysgu Offerynnol

Mae pob disgybl yn derbyn addysg gerddorol fel rhan o Gwricwlwm i Gymru ac ni chodir tâl am y ddarpariaeth hon.
Darperir gwersi offerynnol ychwanegol unigol neu mewn grwpiau bach gan diwtoriaid cerdd arbenigol ac ystyrir y ddarpariaeth hon yn weithgaredd ychwanegol dewisol.
Y tâl am wersi offerynnol yw:

£35 y plentyn, yr offeryn, y tymor

Mae hyn yn cynnwys o leiaf deg gwers ym mhob tymor.
Pan fo gwersi'n cael eu canslo oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y disgybl, bydd:

- ad-daliad o £3.50 am bob gwers a gollwyd, neu
- y gwersi'n cael eu trosglwyddo i'r tymor canlynol a bydd gostyngiad yn cael ei roi.

Dylid talu'r ffi ar ddechrau pob tymor. Anogir teuluoedd sy'n profi anawsterau ariannol i gysylltu â'r ysgol i drafod trefniadau talu amgen.

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

Cyfrifoldeb y rhieni/gofalwyr yw talu am:

- Ffioedd arholiadau cerdd.
- Costau cludo i ganolfannau arholi os nad ydynt yn cael eu cynnal yn yr ysgol.

Gall hyd gwersi amrywio yn dibynnu ar yr offeryn a'r trefniadau amserlennu.

5. Nofio a Chystadlaethau Chwaraeon

Mae'r ysgol yn trefnu gwersi nofio ar gyfer pob plentyn ym Mlynyddoedd 3 a 4. Cynhelir y gwersi hyn yn ystod oriau ysgol ac maent yn rhan o Gwricwlwm i Gymru. Ni chodir tâl am y gwersi nofio nac am y costau teithio cysylltiedig. Bydd rhieni a gofalwyr yn cael gwybod pryd y cynhelir y gwersi a gofynnir iddynt roi caniatâd ysgrifenedig i'w plentyn gymryd rhan.
Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn amrywiaeth o gystadlaethau a digwyddiadau chwaraeon drwy gydol y flwyddyn academaidd. Er mwyn cyfrannu tuag at gostau trafnidiaeth y gweithgareddau hyn, gall yr ysgol ofyn am gyfraniad gwirfoddol o hyd at £5.00 y digwyddiad gan rieni a gofalwyr.
Mae pob cyfraniad yn gwbl wirfoddol ac ni chaiff unrhyw ddisgybl ei atal rhag cymryd rhan os na wneir cyfraniad. Fodd bynnag, os na dderbynnir digon o gyfraniadau gwirfoddol i dalu am gostau trafnidiaeth, mae'r ysgol yn cadw'r hawl i dynnu'n ôl o'r gystadleuaeth neu'r digwyddiad.
Mewn rhai amgylchiadau, efallai y gofynnir i rieni neu ofalwyr gludo eu plentyn eu hunain i gystadlaethau chwaraeon pan fo hynny'n ymarferol ac yn briodol.

6. Clwb ar ôl Ysgol

Bydd taliadau ar gyfer y Clwb ar ôl Ysgol yn mynd i 'Pitter Patter' yn uniongyrchol.

7. Polisi Codi Tâl ar gyfer Gosodiadau

Bydd yr adeilad ond yn cael ei osod i bobl sy'n gallu cydymffurfio â'r arweiniad presennol ar wiriadau SCT os ydynt yn gweithio gyda disgyblion Ysgol Gymraeg Bryniago. Bydd yn rhaid gwirio copïau o'r ddogfennaeth yswiriant berthnasol cyn caniatáu i diwtoriaid gynnal gweithgareddau gyda disgyblion y tu allan i oriau ysgol. Bydd hyn yn gyfystyr ag ‘Yswiriant Atebolrwydd Personol’.

Prisiau'r gosodiadau yw:

- £25 yr awr ar gyfer neuadd yr ysgol (15:00-18:00, Llun-Gwener)
- £25 yr awr ar gyfer ystafell ddosbarth (15:00-18:00, Llun-Gwener)

Bydd cost llogi’r ysgol yn fwy yn ystod gwyliau ysgol/ wedi 6:00 y.h.

Rhoddir gosodiadau am ddim i sefydliadau ac unigolion yr ystyrir gan y corff llywodraethu eu bod yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion nad ydynt yn gwneud elw ac mae tiwtoriaid ond yn codi tâl i dalu costau cynnal y clwb – gallai hyn gynnwys ffioedd cyswllt i gyrff rheoli, treuliau teithio. Caiff taliadau gosod eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn a gellir creu cytundebau unigol i bobl sydd am gymryd rhan mewn ‘gosodiadau tymor hir sydd am fwy nag awr y sesiwn’. Mae ffioedd gosod yn cael eu cyfansymio bob hanner tymor neu bob tymor ac yn cael eu hanfonebu i'r sawl sy'n gosod y safle. Mae'r sieciau'n cael eu talu'n uniongyrchol i gyllideb yr ysgol a chyfrifir ar eu cyfer fel ‘incwm’. Pe bai’r tymor yn cael ei dorri’n fyr neu pe bai’r ysgol yn cau oherwydd tywydd garw yna ad-dalir y ffi yn llawn i’r cwmni sy’n llogi’r adeilad.

*Noder nad yw’r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

Bydd gosodiadau rhad ac am ddim i sefydliadau ac unigolion sy'n cael eu hystyried gan y Corff Llywodraethol i fod yn cynnal gweithgareddau allgyrsiol sydd er budd i ddisgyblion yr ysgol. Bydd y clybiau hyn sydd am ddim onibai bod angen gofyn am gyfraniad i glybiau arbennig e.e. Yr Urdd, coginio.

8. **Codi Tâl am Berfformiadau Arbennig a Digwyddiadau** (gan gynnwys cyngherddau ysgol):

Gall tâl bychan gael ei godi am rai cynyrchiadau ysgol, megis cyngherddau a pherfformiadau Nadolig.
Y tâl presennol yw:
£3.50 y tocyn
Defnyddir system docynnau i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau iechyd a diogelwch a chyfyngiadau capasiti'r lleoliad.
Bydd unrhyw incwm a godir yn cael ei ailfuddsoddi mewn profiadau sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion, gan gynnwys:

- Artistiaid a pherfformwyr gwadd
- Ymweliadau addysgol
- Prosiectau creadigol
- Adnoddau ychwanegol i gefnogi'r cwricwlwm

Ni chodir tâl am fynychu gwasanaethau dosbarth, gwasanaethau dathlu na digwyddiadau arferol eraill yr ysgol.

9. Codi tâl am Dorri neu Ddifrod i Eiddo Ysgol

Mae'r ysgol yn deall bod damweiniau'n digwydd o bryd i'w gilydd ac fel arfer ni chaiff rhieni eu codi tâl am ddifrod damweiniol.
Fodd bynnag, os yw difrod wedi'i achosi'n fwriadol neu drwy ymddygiad diofal, gall y Pennaeth ofyn am gyfraniad tuag at gost atgyweirio neu adnewyddu'r eitem ar ôl trafod gyda'r rhieni neu'r gofalwyr.
Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn sensitif ac yn unigol.
Gall achosion difrifol gael eu cyfeirio at yswirwyr yr ysgol lle bo'n briodol.

10. **Codi tâl am Ddigwyddiadau CRA:**

Bydd taliadau a wneir ar gyfer gymryd rhan mewn digwyddiadau neu dalu am adnoddau ar gyfer yr ysgol a drefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn amodol ar drafodaeth gan Bwyllgor y CRA. Pwyllgor a'r Pennaeth.

11. Codi tâl am Glwb Brecwast:

Mae'r ysgol yn darparu "Clwb Gofalu" rhwng 7.50 a.m. ac 8.20 a.m. am £1.05 y plentyn y dydd a 50c am bob trydydd plentyn neu fwy mewn teulu. Caiff yr arian hwn ei dalu bob dydd Iau cyn yr wythnos ganlynol a chyn cwblhau'r ffurflen archebu lleBydd y Clwb Brecwast rhad ac am ddim yn dechrau am 8.20 a.m. Yr amser hwyraf i gyrraedd ar gyfer brecwast fydd 8.30 a.m.

12. Cefnogaeth ariannol i ddysgwyr di-freintiedig:

Yn Ysgol Gymraeg Bryniago, rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad yw unrhyw ddysgwr yn cael ei roi dan anfantais oherwydd anawsterau ariannol.
Mae'r Corff Llywodraethol wedi penodi:

Hyrwyddwr Ceri: Mrs Sian Breeden

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

Bydd yr ysgol yn parhau i adolygu pob agwedd ar y diwrnod ysgol er mwyn lleihau costau i deuluoedd a sicrhau mynediad cyfartal i bob dysgwr.
Wrth gynllunio gweithgareddau a digwyddiadau, bydd yr ysgol yn ystyried:

- Fforddiadwyedd cyffredinol
- Nifer y ceisiadau am daliadau mewn tymor
- Costau cudd sy'n gysylltiedig â chymryd rhan
- Mynediad i ddysgwyr bregus
- Barn rhieni a gofalwyr

Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, y Cyngor Ysgol a theuluoedd i sicrhau cydbwysedd teg rhwng codi arian a fforddiadwyedd.

Cymorth sydd ar Gael

Gall disgyblion cymwys gael:

- Ffrwythau am ddim
- Byrbryd Foody Friday am ddim
- Mynediad at siop wisg ysgol ail-law
- Trafnidiaeth am ddim ar gyfer ymweliadau undydd addysgol
- Trafnidiaeth am ddim i gystadlaethau ysgol
- Gwers offerynnol am ddim o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6
- Cymhorthdal o 25% tuag at gost ymweliad preswyl Blwyddyn 4
- Cymhorthdal o 25% tuag at gost ymweliad preswyl Blwyddyn 5
- Cymhorthdal o 50% tuag at gost ymweliad preswyl Blwyddyn 6
- Mynediad am ddim i'r Clwb Cyn-Brecwast (7:50yb-8:20yb)
- Mynediad am ddim i glybiau cwricwlaidd a gynhelir gan yr ysgol
- Dim disgwyliad i gyfrannu'n ariannol ar ddiwrnodau codi arian elusennol
- Eitem am ddim yn Ffair Nadolig a Ffair Haf yr ysgol
- Tocyn/tocynnau am ddim ar gyfer perfformiad Nadolig

Bydd pob cais am gymorth ariannol yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol a sensitif.

13. Rheoli'r Gronfa Ysgolion

Bydd y llog a enillir ar yr holl arian yng nghronfa'r ysgol yn aros yng nghronfa'r ysgol. Mae cronfa'r ysgol yn cael ei rheoli a'i chynnal gan Mrs Rhian Gealy, ysgrifenyddes yr ysgol ar y cyd â Miss Nia Jones, y pennaeth. Mae angen dau lofnodwr ar gyfer awdurdodi sieciau. Mae'n rhaid i un o'r ddau lofnodwr hyn fod y pennaeth neu'r dirprwy bennaeth. Archwilir cronfa'r ysgol gan lywodraethwr/ aelod o'r gymuned sy'n arbenigol ym maes cyllid yn flynyddol a chan archwiliwr Dinas a Sir Abertawe bob tair blynedd. Rhoddir adborth ar y canfyddiadau i'r corff llywodraethu llawn trwy'r adroddiad archwilio ffurfiol. Gwirir yr archwiliad blynyddol gan gadeirydd y llywodraethwyr, nad yw'n llofnodwr ar gyfer y gronfa.
Mae holl gofnodion cronfa'r ysgol ar gael i graffu arnynt ac maent yn cael eu cyflwyno i'r corff llywodraethu'n flynyddol ar ôl yr archwiliad.

14. Monitro ac adolygu

Mae gan y Pennaeth yr awdurdod dirprwyedig i benderfynu a ddylid defnyddio cronfeydd yr ysgol i roi cymhorthdal i weithgareddau addysgol, ymweliadau neu gyfleoedd cyfoethogi.
Bydd y Corff Llywodraethol yn monitro gweithrediad y polisi hwn ac yn ei adolygu'n flynyddol, neu'n amlach os bydd angen oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth, canllawiau neu amgylchiadau lleol.
Bydd effeithiolrwydd trefniadau prawfesur tlodi'r ysgol yn rhan o'r adolygiad blynyddol er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i gefnogi pob teulu mewn modd teg ac effeithiol.

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.

Atodiad A:

Taliadau Ysgol

Mae'r ysgol yn defnyddio system taliadau ar-lein iPay i dalu am eitemau bob dydd yn ysgol eich plentyn.

Ewch i wefan yr ysgol am fwy o wybodaeth am sut i greu cyfrif iPay:

*Noder nad yw'r ysgol yn cyfrannu at gostau dysgwyr PYDd sydd wedi eu gwarchod yn drosiannol.